## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Tachwedd 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

### *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon. (WAQ44901)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer hyrwyddo diwylliant Cymru dramor. (WAQ44902)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen 'Cyfle i Ddisgleirio'. (WAQ44903)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddimensiwn Cymru o gynllun yr UE i atgyweirio'r ffordd y llywodraethir pêl-droed yn Ewrop. (WAQ44904)

**Owen John Thomas (South Wales Central):** Will the Minister make a statement on his recent meeting with UK and Irish Sports Ministers on 2 November 2005. (WAQ44905) W

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol pêl-droed yng Nghymru. (WAQ44906)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am foderneiddio llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. (WAQ44907)

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gyngor Celfyddydau Cymru. (WAQ44908)

**Karen Sinclair (De Clwyd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yngl•n â derbyn *Freeview* yng Nghymru. (WAQ44909)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Sir Caerdydd yngl•n â dyfodol Canolfan Sglefrio Cenedlaethol Cymru. (WAQ44910)

### *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Beth yw statws cyfredol y cynlluniau a luniwyd i hwyluso problemau llifogydd yn Nhrefyclo. (WAQ44922)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd mewn perthynas â'r problemau llifogydd yn Nhrefyclo. (WAQ44923)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda byrddau iechyd lleol ynghylch eu gofynion cyllideb. (WAQ44911)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am nifer y bobl sy'n aros am driniaeth yn ysbytai Cymru. (WAQ44912)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o feddygaeth ataliol yng Nghymru. (WAQ44913)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am negodiadau ynghylch contract newydd deintyddion.(WAQ44914)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oedi trosglwyddo Gofal. (WAQ44915)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella'r drafnidiaeth sydd ar gael i gleifion allanol ysbytai yng Nghymru. (WAQ44916)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ymgyrch hysbysebu gwybodaeth a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth pobl o'r camau i reoli'r heintiad e. coli. (WAQ44917)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y practisau meddygon teulu sydd wedi cau yng Nghymru yn ystod 2005. (WAQ44918)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amser aros targed Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y rheiny a ddaw i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. (WAQ44919)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o gleifion yng Nghymru sydd wedi aros am dros 12 awr am wely ysbyty ar ôl iddynt gael eu derbyn yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. (WAQ44920)

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa

wasanaethau a ddarperir i gefnogi pobl sydd â Chlefyd Parkinson yn y Gogledd Ddwyrain.
(WAQ44921)